# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 18 Ebrill 2013** |
| Amser: | **11:30 - 12:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2013(5)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Angela Burns**<br>**Sandy Mewies**<br>**Rhodri Glyn Thomas** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Mike Snook, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Swyddog)**<br>**Nerys Evans (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | **Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan David Melding.

Rhoddodd Claire Clancy y wybodaeth ddiweddaraf am y problemau TG a gafwyd yn gynharach yr wythnos honno. Byddai nodyn yn cael ei ddosbarthu i'r Comisiynwyr yn egluro'r materion a'r ymateb.

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

1(iii) Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar y cofnodion.

## 2. Adolygiad strategol o ystâd y Cynulliad 2013

Rhaid rheoli Ystâd y Cynulliad yn ofalus er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r cyfleusterau sydd ar gael. Mae'r adeiladau eiconig yn ganolog i allu'r Cynulliad i ymgysylltu â phobl Cymru a thu hwnt ac i godi ymwybyddiaeth o'r Cynulliad fel cartref democratiaeth Cymru.

Trafododd y Comsiynwyr yr heriau presennol a'r heriau posibl yn y dyfodol ar yr ystâd, a nodwyd nifer o faterion i'w hystyried yn fanylach.

Gall y galw am y lleoedd cyfyngedig sydd ar gael fod yn uchel iawn ar adegau penodol ac maent yn amrywio'n sylweddol drwy gydol y flwyddyn. Cytunwyd y dylai'r defnydd o gyfleusterau fel ystafelloedd cyfarfod fod yn hyblyg ac y dylid eu rheoli'n greadigol fel y gellir diwallu anghenion holl ddefnyddwyr yr ystâd, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur fel ar ddiwrnodau busnes pan fo'r ystafelloedd cyfarfod i gyd yn llawn.

Cynhaliwyd adolygiad o'r swyddfeydd sydd ar gael i weithwyr y Comisiwn yn ddiweddar er mwyn canfod cyfleoedd i wneud y gorau o'r lle. Bydd angen i unrhyw newidiadau yn y defnydd o le adlewyrchu blaenoriaethau'r Comisiwn ac anghnenion y Cynulliad. Pwysleisiodd y Comisiynwyr yr angen i feddwl am yr heriau yn y dyfodol ar yr holl ystâd, gan gynnwys y presenoldeb yn y gogledd, wrth wneud penderfyniadau ynghylch rheoli'r ystâd. Dylid adolygu trefniadau ar gyfer isbrydlesu'r ystâd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn cynrychioli gwerth am arian.

Cytunwyd y byddai angen edrych ar y materion canlynol ymhellach:

- Defnyddio'r lle yn Nhŷ Hywel a'r Senedd i sicrhau y gellir diwallu anghenion y rhai sy'n defnyddio'r adeilad, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysurach;
- Trefniadau isbrydlesu yn Nhŷ Hywel;
- Prydles hirdymor Tŷ Hywel;
- Swyddfa'r Cynulliad yn y gogledd.

## 3. Papur i'w nodi – Cofnodion drafft y Pwyllgor Archwilio 21 Chwefror

Nodwyd y cofnodion.

## 4. Unrhyw Fusnes Arall

Nid oedd materion eraill i'w trafod.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Ebrill 2013**